# Hysbysiad cofrestru buddiannau 2023: Ian Rees

| Diddordeb cofrestradwy | Disgrifiad o ddiddordeb | Cofnod (nodwch DIM lle bo hynny'n berthnasol) |
|---|---|---|
| Taliadau | Disgrifiad o:<br>(a) tâl a dderbynnir yn rhinwedd eich bod yn –<br>(i) gyflogedig neu hunangyflogedig;<br>(ii) deiliad swydd;<br>(iii) cyfarwyddwr ymgymeriad;<br>(iv) partner mewn cwmni;<br>(v) aelod o unrhyw sefydliad;<br>(vi) cymryd rhan mewn masnach, proffesiwn, galwedigaeth neu unrhyw waith arall;<br>(b) unrhyw lwfans a dderbynnir mewn perthynas ag aelodaeth o unrhyw sefydliad;<br>(c) enw (ac enw cofrestredig os yw'n wahanol) a natur unrhyw gyflogwr, hunangyflogaeth, partneriaeth, busnes, menter neu sefydliad perthnasol;<br>(d) natur a rheoleidd-dra'r gwaith am dâl; ac<br>(e) enw'r swydd cyfarwyddwr a natur y busnes perthnasol. | Dwi'n ymgymryd â rhywfaint o waith ymgynghori, ar sail contract, ar gyfer sefydliadau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.<br>Dim ond ar ôl trafod â Phennaeth y Gyfraith a Moeseg yn Archwilio Cymru y cyflawnir y gwaith hwn er mwyn sicrhau na fyddai'n gwrthdaro buddiannau. |
| Gwaith cysylltiedig | Enw a disgrifiad unrhyw swydd cyfarwyddwr nad yw ei hun yn cael ei dalu ond sydd o gwmni neu waith sy'n rhiant neu'n is-gwmni i gwmni neu fenter sydd â thâl. | Aelod o Gyngor Prifysgol Bangor. Ar hyn o bryd rwy'n Gadeirydd y Pwyllgor Diswyddo a hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Fodd bynnag, o fis Hydref 2020 bydd hyn yn newid, a byddaf yn aelod o'r Pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Risg – aelod<br>• Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu - aelod<br>• Y Pwyllgor Diswyddo - Cadeirydd<br>Ar 11 Chwefror 2021 dechreuais fy swydd fel Cadeirydd Bwrdd elusen ALOUD |

| Diddordeb cofrestradwy | Disgrifiad o ddiddordeb | Cofnod (nodwch DIM lle bo hynny'n berthnasol) |
|---|---|---|
| | | Mae'r rhain i gyd yn swyddi di-dâl. |
| Contractau | Disgrifiad o natur a hyd (ond nid gwerth) contract nad yw'n cael ei weithredu'n llawn ble:<br>(a) mae nwyddau a gwasanaethau i'w darparu i Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu mae gwaith i'w wneud ar eu cyfer; ac<br>(b) os oes gennych fuddiant uniongyrchol, neu fuddiant anuniongyrchol fel partner, perchennog neu gyfranddaliwr, cyfarwyddwr neu swyddog busnes neu fenter, mewn contract o'r fath. | Dim |
| Cyfranddaliadau a gwarantau | Disgrifiad (ond nid gwerth) cyfranddaliadau neu gwarantau mewn cwmni, menter neu sefydliad a allai fod yn arwyddocaol i waith yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu a allai effeithio arno. | Dim |
| Buddiannau nad yw'n ariannol | Disgrifiad o fuddiannau a allai fod yn arwyddocaol neu'n berthnasol i waith yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys (heb ragfarnu'r cyffredinolrwydd hwnnw) aelodaeth neu swydd o fewn:<br>(a) cyrff cyhoeddus eraill;<br>(b) clybiau, cymdeithasau a sefydliadau;<br>(c) undebau llafur; a<br>(d) mudiadau gwirfoddol. | • Mae fy ngwraig yn aelod o Bwyllgor Canolfannau Cyngor ar Bopeth Cymru;<br>• Mae fy mab yn Gyfarwyddwr a gyflogir gan Grant Thornton UK LLP;<br>• Mae fy merch yn athrawes ysgol a gyflogir gan Gyngor Ynys Môn; ac<br>• Mae fy ngwraig yn gweithio fel ymgynghorydd Adnoddau Dynol llawrydd, gan ddarparu gwasanaethau Adnoddau Dynol i ysgolion a chyrff eraill, gan gynnwys Awdurdodau Unedol a Chynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru. |
| Datgeliadau partïon cysylltiedig | Disgrifiad o unrhyw drafodion partïon cysylltiedig yr oeddech yn ymwybodol ohonynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. | Dim |

Enw (printiwch): IAN REES

| | |
|---|---|
| Llofnod: | Ian Rees |
| Dyddiad: | 1 Rhagfyr 2023 |